


Normandie
(20230630-0708)



'Da'r wawr, yn awr, *allons nous!* - haul a hwyl
Ac Oh Là Là'n galw!
Hei, ble mae *pays Champrépus?*
Daw'r *verre d'or*, hyfryd erw.



Oriau ar erwa'u'r Môr Udd - atyniad
Y tŷnau a'r tywydd
At olyniant o lonydd
Parod i ganfod *gite gudd*.




Nawdd cwt ymguddio cety'n - y gorau'n
Gorwedd ger y pyllyn
Yn gaeth i faeth hen fwrthyn
A phau'r perllanau a'r llyn.




Oed argeol dyddiau digel - eiliad
'Da'r wylan a'r awel,
Awyr iach a thŷr uchel
Bore siwrne *Saint Michel*.




Rhywlun am adrodd cyfrolau bo ael
Bayeux'r taperstriau
A helfa 'mhen pella'r pau
I gael nodi'r glanladau.




Dyma hanes llynges a llu'r milwyr
Am hela Almaenwyr;
Dyma bae gwae a gwewyr
Yn *Arromanches* ger y mur.



Agweddau ar dref osgoeddig - *un jour*
À *Fougères*, arbenig;
Cangell hen gastell a gwig,
Oriol daear Lydewig.




Camre addysg am wareiddiad - taro'r
Tirwedd ar bob troed
Hardd a oedai cerddediad
Unig lais yng nghefn gwlad.




Chwaeth â'i rhamant uwch ieithor - am wychliw
Yw machlud o drysor;
Mawrwag yw byd yn agor
Yn *Granville* ag eirian fôr.

Siew a'r byd 'di distewi - chwaraeon,
Hanesion 'rôl nosi;
Sbecian o'n hafan bach ni
Ar fydoedd dirifedi.



Yn natur hyf pentrefyn - odlau hoen
Cydllynu a pherthyn;
Mae angor ein h'fyfory
Yn *Villedieu* dan ofal dyn.



Atgofion meirwon *sur mère* - y meysydd
Ymosod, a'r balchder
Am boen a grym a baner;
Atgofion gwirion *la guerre*.



'Da'r wawr, daw'r awr, *allons nous!* - â'n parthau
O'n gwyliau yn galw!
Er anodd dweud yr enw,
Hei, braf yw *pays Champrépus!*

(Gwyliau gwirioneddol neis yn Normandie gyda JKChDTE. Mynd i Mont S. Michel, Bayeux, Arromanches, Fougères, Granville, Villedieu a S. Mère Église; ac oriau yn y bwthyn yn darllen a mwynhau.)

YRhein
(20230626)

I'r afon, trem ar i fyfyr - awg oes
Tal gestyll yn fyfyr
Parthau glas winllanau'n llu
Â'r Rhein a'i rhin I'w rhanu.

(Neges wrth E&R ar y Rhein!)

NewidHinsawdd
(20230625)

Hyn o fyd a amddifadwyd! Gwanlydd
Yw gwinllan a sarnwyyd;
Rhag dicter a sychder swyd,
Môr o heddwch fy mreuddwyd.

CWDEtâ?
(20230624)

Si ysol cynllwyn asasin yn awr
Wagneraidd yr aerdrin;
Peryg s'arff fel *Prigozhin*
Chwalp botes dymchwel *Putin*.

(Y Grŵp Wagner yn troi ar fyddin Rwsia.)

BandLydan?
(20230624)

Araf esgus er f'ysgwyd i ddiiffodd
Y wei-ffei - a'm hanwyd;
Ond y llun o wynfyd llwyd
Yw'r enghraifft cawn o'r rhyngrhwyd.


(Newid wei-ffei yn Rh a CG, ond meddwl hwyrach y byddai'n well hebdo o gwbl.)

Gwlaw?
(20230624)

O graig allt, gwywa'r gwelltyn - noeth y serth,
Fy syrthia'r blodeuyn;
A'r mhaderyn diferyn
Dros lethrau pair y gwair gwyn.

(Sychder yng Nghwm Tawe.)

CoedLlangwyfan
(20230619)




Wynebu'r hin ar fin bryniau - cylched
Cer'ed rhwng y caerau
Ar y cyd o'r byd i bau
Pinael heddw Pen Y Cloddiau.

(Cer'ed 'da J, L a R.)

Gweld
(20230615)

Yn rhydd o'r anwreddau - adnabod
Y neb sydd yn amau;
Eli coel uwch meddwl cau
Yw'r gwir sy'n curo geiriau.

Crigyll
(20230615)



I Grigyll draw a'i greigiâu - cerig caer
Cawres uwch y traethau;
Haf o win oer i'w fwynhau
'N ffiol atynol tŷnau.

(Rhedeg ar hyd Traeth Crigyll, heibio Barclodiad y Cawres ac i ben bryn, cyn oifad yn y môr! Nefoedd!)

NaWyrYByd
(20230612)

Am eiliad heddwch melys o broffion
Lladron tŷyllodrus,
Hafn rhag meddylliau ofnus:
Fel diweddglo, rho i'm Rhyts.

(MM yn canu trefniant o "Rhyts" yn yr eisteddfod, â'r dôn a'r geiriau'n mynd rownd a rownd yn y pen.)

Iachawdwriaeth!
(20230611)

Clywch, clywch, heidiwch i'r clychau - o Dduw
Maddeuant daw'r nodau;
Cam rhwyd er rhyddau'ch camweddau,
Gwahanir y gwir o'r gau.


(Clychau San Pedr yn glir y bore 'ma; dwysedd awyr uchell!)

CynCysgu
(20230611)

Seintwar wedi hirymaros - fel dydd,
Gofal Duw'n ymddangos;
Grym pader yn nyfynder nos,
Heddwch yr oriau diddos.

(Eistedd ar y stepyn drws neithiwr â'r byd i gyd yn dawel ac yn ffres wedi'r gwlaw tyrfe!)

EstTlein
(20230610)



Grwn hudol, gwawr o nodyn yw effaith
Cyflwrdd ar y 'sbardun;
Hoff yw hirdaith mew'n Fforyd:
Gyru gwell! Ffigaro gwyrn!


(T yn joiol)

NewidHinsawdd
(20230610)

Loes tymhestl oes y twymo bo gwyned
Begynau yn cilio;
Fel drws i orlifol dro
Olwyn hanes El Niño.

(Ail-adrodd haf cynnes rhyw ddegawd yn ôl o achos effaith El Niño.)

MyndÂmDro
(20230610)



Tro gwahanol, nefol nwyd arwyd hin
Ar lannau'r dofn Ddyrgrwyd
Dydd gwyn, dilyn Glyn o Gllwyd
I Gorwen ac i Gynwyd.

(Mynd am dro dydd Mercher gyda H.)

MisMehffin
(20230603)

Llewyrch llafur brodyr braf - â'u lliwiau
Dros yr erwa'n araf
I greu darlun nefyn haf
Glyn blodau'r 'menyn mwynaf.

(Blodau 'menyn yn eu gogoniant eleni eto ar y ddol.)

Dioch
(20230531)

Hedd ei weddi yw haeddiant gŵr y groes,
Geiriau gras a moliant;
Sicrwydd pader nawdd Bernant,
Rhodd i'w blwyf a'r Ffordd i'w blant.

(B. yn rhoi'r gorau i bregethu.)

DerotsGG
(20230531)

Odlau erwa'u'r Graig Arw - nodau gwawr
Hyd y gwyl yn drcw
Rhiniog eco'r hen gwccw
Ac aur eiriau'r gwdi-hw.

(“Derots” yw “adar” y nhafodiaith Cwm Tawe. Y gwcc wrth heddi, a'r dyllun yn y nos.)

Gwelliant!
(20230531)

Tybiant o rym ymatebol rhyfedd
Cyfrifiant eithafol;
Trwsio gwaith, gweld ffaith drwy'r ffol
Yn olyniant aml-enwol.

(Cywiro cyfrifiad gwallus â dosraniad *multinomial*.)

AmFore
(20230529)

Mae heddi'n weddi wiwddwys - haul eurwawr,
Alaw'r Tawe hylwys;
Godiocaf, gwynaf gwys
Yw rhedeg fy mharadwys.

(Am fore. Braidd y gellid gwell!)

BodYnAil
(20230528)

Un mawr ond pluen o ran maint - daeth awr
Am gawr fentrodd gymaint.
Marchog, cun er alltog haint!
Ein gwron ydyw Geraint!

(GT yn ail yn y Giro d'Italia.)

Fferrando
(20230525)

Wylô'n coelio'r newydd cas - hen geidwad
Yn gadsel ag urddas;
Taro o glywfo'r car bach glas
Ac a-men ei gymwynas.

(Y ffiesta wedi cael ei siwrnai olaf.)

GwaithDyddMercher
(20230525)

I gangen Tŷ'n Y Gongol - a gafael
Gofal arfordirol;
Uwchgylfarfod gwarchodol,
Bendigedig rigmarôl!

(Dydd Mercher cyntaf heb waith, gyda J yn carco D.)

WotsÿpDoc?
(20230521)

Chwaer â nwyf am chwarae'n iach - mynu mynd
'Miwn a mas drwy'r perthach;
Dewis amlwg oed symlach
Yng ngwyn fyd cwningen fach.

(Y ddol dan ei sang o gwningod y bore 'ma.)

ArosMaeOHyd!
(20230521)

Mawr yw'r her: creu Cymru Pydd - crud y creu
'Di credu 'da'n gilydd!
Am unwaith, 'concro' mynydd!
MarWi fyw yng Nghymru Fydd!

(Yn Abertawe am orymdaith YesCymru 'ddoe.)

Coperopolis
(20230520)

Drwy'r *slip*, cip dros Fae Copor - hen oibaith
Perffraith tre'r mwyn porfor;
Am wefr y Mwmbwls ar môr
Mawr glas, fy nhras, fy nhrysôr.

(Yn Abertawe ar gyfer gorymdaith YesCymru, â llu atgoffon.)

Gyda'rHwyr
(20230516)

Eiliad o hoe, hewl dawel i rywle
Â'r heulyn yn isel
Lonydd, â'r mynydd fel mel,
Yn gyru hvd y gorwel.

(Gyru lawr i'r de ar noson hyfryd.)


Éire
(20230427)

I wlad yr hen gariadon - daw eiliad
I weled afallon;
I'n hwyliau, dau dros y don
I harddwch ein Hiwerddon.

Gwawr a gwib i Gaergybi - a miri'n
Morio dros y weilig;
Ciplun Dulyn a dwli,
Fel cyffur ein hantur ni!

Fferi i Ddinas Ffeiriâu,
Chwarae iach ar lan Loch Rí,
Arwisg a-men *Ros Coráin*,
A hedd y cnawd drwy ffydd *Cnw*,
Cyn holi'r helli'n yr *Helm*.


Gweld carneddau'r bryniau brith,
Hen wydrach yn llawn Iledrith.



Awn o Glencar i galon co' - hafod
Am fyfyr sydd yno;
Geiriau gras goger y gro:
Egwyl 'da Yeats yn Sligeach.



Golygfa bu rhodfa'r wig
Cipedrych ar Craig Padrig.



Awyr iach, tonau Achill,
Traethau arian, marian mil.



I bydew yr hen newyn,
Cân y gwae ar fryncyn gwyn.



Estyn draw i Dun Briste
A dod ar draws nawys y ne'.



Eto llywio lawr i'r llwch
I Doolagh a'i dawelwch.
Dilyn awen heulwen ha',
Cân y môr, Connemara.



Melys a moethus y min
Ar daith hyd stryd o eithin.




Cael hoe ger tref An Clochán
Cwt a mawn a'r Quiet Man.




Mynd i ganfod y meindwr
A glweddâ yn Achadh na nIubhar.



Daw Baile Uí Bheacháin, i'r de,
Nefolaidd Cappabhaile.



Ogofau'r oesau'n Aill Bhu'n
Yn barod am y Boirrin!




Dewrder, breider Poll na Brán,
Hynoded ei atgofion.



Yn llawn swyn ger clogwyn Chláir
Mae ewin tonau Mhothair.



Haner awr i lawr y lôn,
Tamaid yn Inis Diomáin.



Yn awr i Cill Fhionnúrach
I weld cerflun o'r Dyn Da.
Yn y ffordd ar bwys y ffin
Gerllaw, Croes y Gorllewin.



Naws gwlad 'di Bun na Raite,
Munud am fywyd a fu.



Yn y gwyrdd, hyd y ffyrdd ffeil
Yn ceisio castell Caiseal.



O'r teithiau, oriau hirion,
Ymrhyddhau ar lanau'r Leamhain.



Uwch y bae, pen cae, cathair.




Llwydni meini An Dun Mor.




Naws hiraethus Ceann Sratha.



Ysgogiad eiliad dwylan
I ranu o hoen Breannain.




O galon cwm a Glencar
Yn chwenych y bwloch anwar!



Egwyl ger hengaer Stéige,
Swyn niwl, rhywle is y ne'




I seintwar goruwch arial:
I greigiau hin, Cathair Cheal.




Celwn goger An Caladh,
Amhris dewis coffi da!



Daw anel uwch a'r Dún Láich,
Gris ar ol gris o groeso!




Antur fawr Mhuintir Bhaile
Dim ond Affrica i'r de!



Dygnawd ffawd byw ar y ffin,
Dún na Séad a dawns Odín.



Betws ger yr abaty,
Llawr â chlychau'r gog yn llu.



Yn nuwch a gwarth newyn
Gweler breuder, dewrder dyn.



Alawen o'r gorffennol,
Awyr iach yn mhentre Eochail.

Crwydr diddos y Preziosa
Cyda'r awel yn hel ha'!
A oes syniad yn swyno
Feli cyfarfod cychod Cobh?

Awr padera yn larpwn
Cyffes o hanes yw hwn.

Heidio lan i Gleann Dá Loch
Am orig unig yno.

Cil y sant yw Cil Wantan,
Dirgel awr ger y dŵr glân.

O harddwch ein Hiwerddon - am Walla
À mil o atgofion;
Gefeilles ag Afallon
Tir y dâr tu hwnt i'r don.

(Wedi rhoi cynig ar anghaniad
Cymraeg i rhai o'r llyfnydd y buom. Ond anodd iawn oedd, â llawer o acenion a thafodieithoedd
gwahanol. Laugh Ree = Loch Rí; Roscommon = Ros Comáin = Ros Comáin; Knock =
Cnoc = Cnw; Westport = Cathair na Mart = Dinas Ffeiriú; Clifden = An Clochán = An Clochán;
Burren = Boirrin = Bwren; cathair = cáber; Brandan = Breannain = Bre Nan; Portmagee = An Caladh
= Cala; Sheep's Head = Mhuintir Bhaile = Muintir Fáre ("Pobol y brenin"); Baltimore = Dún na Séad
= Dvnn na Séd; Youghall = Eochail = Íol; Glendalough = Gleann Dá Loch = Glen Da Lo; Sligo =
Sligeach = Sleigo; Aughanure = Achadh na nIubhar = Ochnanúr; Aill Wee = Aill Bhu' = Ail Wí;
Moher = Mhothair = Mohýr; Clare = Chláir = Clár; Ennistimon = Inis Diomáin = Enistimon; Killybegs
= Cill Fhionnúrach = Clifffena; Bunratty = Bun na Raite = Bwnratt; Cashel = Caiseal = Casel; Laune
= Cill Fhionnúrach = Clifffena; Bunratty = Bun na Raite = Bwnratt; Cashel = Caiseal = Casel; Laune =
Leamhain = Loen)

Blaguro
(20230427)

Ochor draw i godi'r awen - man gwyn,
Man eginó'r arlen;
Cwrlid cnwd y brwd ar bren,
Hir oes i liw'r geiriosen.

YrHenDroseddwrHyf
(20230426)

Awr dehori y dewrach - dant y llew
Dént â lliw gwerinach;
Y crych ymhlith y crachach
Yw gloywder y border bach

(Pawb ar y cyfryngau'n canmol DYLL)

DoedAddelo
(20230425)

Gwewyr a ddaeth i'th guro - wedi'r traw
Dewr yw trio, eto;
Dod i'r "pam?" a'r cam o'r co':
O'r golled, gwawr i gallio.

3-1
(20230424)

Yn berygl, poen i Boreham oedd y miloedd
Á'u Mullin. Cans trychlam
Taith llu i Cymru ar gam
I'w rhacso gan wŷr Wrecsam!

(Paul Mullin yn arwain Wrecsam yn ol i'r Cynghair Peldroed.)

BB
(20230422)

Bri noeth cleber unieithog; b'ric-a-brac
O Brecon undonog!
Egin gwlatgar gyda'r gog
O'r chwyn, BANAU BRYCHEINIÖG.

(Darllen yr adwaith i erthygl gan Rhiannon Lucy Cosslet yn y Guardian.)

Oosterdok
(20230419)

Tyrd 'nawr â gwên ar drên, ar dram i'r hwy!
Ger yr IJ ar garlam;
Tyrd i lys brys gwylr brasgam,
Tyrd i weld tref Amsterdam.

(Yn Amsterdam am y tro cyntaf ers cyn COVID. Yr IJ yw enw bae Amsterdam, sef y dŵr mawr yn y ddinas.)

GerYDŵr
(20230418)

Ymryson gwirion y gored - a'n gwaedd
O "en garde" i'w gylwed;
Rhull awch am greigiau'r llyched
A chwant am Ioniant, ar a led!

("Mynd am antur" gyda K, Ch a D ddydd Sul.)

Epilog
(20230415)

Anrhydedd hwyrol weddi - i ddeall
Am ddiweddedd dy stori;
Deg muned i gyroni'r
Hanes yw baint d'henaint di.

Cartrefle
(20230414)

Teimlaf naratif y llifo'n gori
R'un geriau'n fy nghalon;
Hiraeth arwar lfaraf llon
Nefoedd ger y ddwy afon.

(Yng Nghwm Tawe, yn eistedd ger cyflifiad y Tawe a'r Twrch, Culhwch ac Olwen yn cwrsro o'm mlaen, a'r byd yn ei le.)

ArGoll

(20230409)

Gwirion dynion er eu dawn a'u synwyr
Am arlwy'r ffrwd irlawn;
Er y rhoddir i'r uniawn
Bedd yn wag, boddi a wnawn!


Bore'rTrydyddDydd

(20230409)

Dyma wers un dyn dinag; er oeri
Drwy wendid ariandag,
Daw'r oen o'i boen beth bynag;
Bydd yn iawn, mae'r bedd yn wag.

Ffiesta!

(20230408)




Gwenog lais a'i gân a glywsoch - o'i liw,
Ei lewyrch a welsoch;
O'i weled, siwr fe gredsoch
Taw 'nghymar yw'r car bach coch.

(Y brawd yn sgleinio pen bore 'ma.)

BywydNewydd

(20230407)



Bala hoen o fywyd blin ger traethau
Eisiau duwdod iesin;
Orig uwch o fara, gwvin
A ffrydiau'r anghyffredin.


Rhad oleuad, haleliwfa'r ogof
Ar agor, cymanfa
Wyllo dwys y Bugalia Da,
Olaf orig Calfarla.

Yn y baw er profi'r byd - er y gwawd,
Ar godi mae'r ysbryd;
Gweld o grwydro credo'r crud
Bod 'na fwy, bod 'na fywyd.

(Gobaith.)

YrApêl

(20230407)



Dathlu sail bendithiol sêl i noddï'r
Heddwch dros y gorwel;
O law i law yn dawel,
Llofnodion dwys, pwys Apêl.

(Hanes Apêl 1923 ar y newyddion.)

Danodd

(20230404)

Daw cysur rhag dolur drwy'r dydd? - ai gwg
Trai'r GIG yw'r blaenybudd?
Ufuddhau i'r costau cudd
Di danto ffeindio deintydd!

(Anghytuno â gorfod talu am ddeintydd wedi talu Yswirion Gwladol am oes, â deintydd Rhuthun yn gadael y GIG.)

2-3

(20230403)




Yn y fantol, ffwtbol a ffydd - lluniaeth,
Llawenydd a chystudd
A nef y dioddefydd;
Caru Duw, maeddu Caerdydd!

(Y Swans yn maeddu Caerdydd am y pedwerydd tro yn olynol!)

YrHenFfrind

(20230328)



Hirfwm, â'r peswch yn erlid y gwan
A'i gorrï i gyfyngdid;
A phailly cyfaill COVID
Yw'r dolur sy'n ledu'i lliid.

(Ï â'r feirws wythnos diwethaf, minau â fe ers y penwythnos, a K wedi cael prawf positif heddi'. E & R wedi'i ddal e hefyd.)

Creulondeb

(20230319)



Aflan, diefflig broponganda - torwyd
Tosturi gan ddogma;
Gyru dyn, y drwg a'r da
Drwy wendid i Rwanda.

(Cywilydd ar y "llywodraeth" Doriaidd yn Llundain. Mae'r polisi yn hollol anfaddeuol. Dengys y llun gamp "gelyn-estroniad" yn Huyton, Lerpwl, yn 1940.)

le?Nage?

(20230318)

Cyfarfod â'r dyfodol yw dy chwant,
Ffyniant nid gorffennol;
Ond Phil, Phil paid bod yn ffôl
Meddai awen ymddeol!

(Lled-ymddeoliad yn agoshaul!)

URYbnika

(20230318)




Difyrwrch pob diferyn - taweled
Dy alaw, fel emyn
Nef fy nef yn y fan hyn
O loywidid cwrlid corlyn.

(Yn eistedd ger pwll y pentref, Nefoedd.)

Gwynfyd?

(20230317)




I dyrfa'r ffars diderfyn - nudd eofn
O dduwch sy'n perthyn;
Mae hawl cael popeth melyn
Ond gwarth, gwarth yw bywyd gwyn.

(Eisteddfod Llangollen yn penderfynu bod "byd gwyn" yn hiliol. Gwyn eu byd!)

Jasan

(20230317)




Mwydro wyf, un mud ar wahan am gam
I goed goger Skřivani;
Trôi o ludd y dydd a'i dân
A'r drys, i grud yr *Jasan*.

(Bore BENDIGEDIG, rhedeg o Skřivani drwy'r berllan lawr i'r goedwig a'r potok, draw drwy Novosedly, lan i'r fainc i edrych dros Hracholusky, draw at yr onen (yr *Jasan*) a'r olygfa, lawr i Valachov a'r cwm eto, a nol heibio'r *chalupy*. A dyma ymddrech trosiad *český*:

*Jsem zkroutený, ztlumený od sebe na krok
Ke křivanským stromům;
Odvracím se od slabosti dne, jeho ohně
A zmatku, do kolebký jasanů.)*

Selliwoid

(20230316)



Anabledd gwerin boblach - crescendo'r
Eco trugarocach;
Acre uwch brwydrau'r crachach;
Gwir wyneb oes ar sgrîn bach.

(Gwylïo ffilmiau gwych dibendraw gyda V. gyda'r nos yn y bwthyn.)

Pohoda

(20230315)




Yn y wlad, hawl i oedi - hedd a haul
A rhyddhad o'm ffwlbrï;
Unig amnodd o gwmni
Yw fy nef ve Skřivani.

(Diwrnod o wyliau yn y bwthyn yn Skřivani. Ystyr *pohoda* yw "bodlondeb" neu debyg.)

DalawnGary

(20230311-12)



Trawdactau Toriaidd ddicter â ffawd
Ffoardur yn ôfer;
Ond ffawd brawd yw eu breuder!
Cans 'hawr, cawr yw Lineker!

Ystyriwch, gwên tosturi yw tro dewr
Trydiariad haelioni,
Haul gras diarnheulol gri
Am y gwir, 'does amau "Gary"!

Cnafod cyfrwys a'u haffwysedd ffoenuchel,
Rhaidd hel o'u hanhaeledd
O'i y groes uwch loes a chledd,
Tor gwawr neges trugaredd.

(Gary Lineker yn cael ei gosbi gan y BBC - ond ei edmygu'n fawr gen i - am ddweud yr hyn sy'n amlwg yn ol y Cenhedloedd Unedig. Dyma eiriau *Georgy Luther*. Mae'r llun o waith Alfonso Mucha. Arwyddair yr Eglwys Forafydd yw: "Mewn hanfodion, undod; mewn pethau nad ydynt yn hanfodol, rhyddid; ac yn mhob peth, cariad". Anodd meddwl am ysgogiad gwel!)

Ffoi'rPogrom

(20230310)




Pech ffanataicaidd ffaidd ffôl - a nos
Ashcenasim briol;
Dyma'r hewl â dim ar ol
Ond gormwyth tylwyth Topol.

(Erthygl yn y Guardian am wrwyddocad y ffilm "Fiddler on the Roof" a chymeriad Tevye, chwaraewyd gan Topol, yn arbenig.)

Poe

(20230310)



Awn i graidd Edgaraiddd go' - wrth ei fodd
Â'i rith-feddwl heno;
Ag offirmw nos o gyffro
Daw rhyfeddod parod Poe.

(Mynd i theatr Nová Scéna i weld rhywbeth rhwng drama a "ballet" am waith Edgar Allan Poe. Mewn rhan doniol dros ben, mae Poe yn siarad gyda'i "psyche".)

Betlémská kaple

(20230308)

Hafod o ddogma foaidd - a berw
Bore amhabydddaidd;
Os am ias teg ras yn graidd,
Dewised credo Hwsaidd.

(Ymweld â Chapel Bethlehem yn Prag lle bu Jan Hus yn gwasanaethu a phregethu fel protestant tua 1400, canrif cyn dyddiau Martin Luther. Mae'r llun o waith Alfons Mucha. Arwyddair yr Eglwys Forafydd yw: "Mewn hanfodion, undod; mewn pethau nad ydynt yn hanfodol, rhyddid; ac yn mhob peth, cariad". Anodd meddwl am ysgogiad gwel!)

CwantwmDdarwinaeth

(20230308)

O! maes heriol mesuriad - er rhanu
Darwinaidd ddatgeliad;
Ym mwr-ton-ffwythianau mad
Cei dyl le'n y cydlyniad.

(Darllen eto am gwantwm-Ddarwinaeth, sy'n cynyg un modd i esbonio sut mae arsylwadau o sistem sy'n sylfaenol gwantymaidd eu natur, yn tueddau at arsylwadau ffiges glasurol wrth i faint y sistem dyfu. Cyfrodeddiad (*entanglement*) a chydlyniad cwantwm (*quantum coherence*) sy'n gyfrifol yn ol y gwybodusion!)

EgniTywyll

(20230305)

Pa rwllan, pa ddamcan, pa dull - etyb
Y data sy'n ddistyll?
Cyfiawnhad gwead y gwyll
Hud neuad egni tywyll.

(Darllen erthygl yn esbonio tua 75% o egni'r bydysawd. Ond nid oes modd ei weld na'i fesur yn uniongyrchol, sy'n gadael posibilrwydd bod modd newid y maths i esbonio'r un data heb angen egni tywyll.)

Sbwci

(20230304)

Cyfrwyd wawdd cyfrodeddiad - llyw anwel
Pellenig gysylltiad;
Cwplied anleolediad
Yw'r difesur eglurhad.

(Darllen eto am gyfrodeddiad (*entanglement*), lle na ellir disgrifio cyflwr gronynau unigol, ond medrir disgrifio cyflwr anleoedig (*non-localised*) par neu fwy o ronynau. Einstein dywedodd nad oedd yn credu mewn "gweithredu sbwci o bellter", sef yr hyn mae cyfrodeddiad yn ei awgrymu i rhai.)

DyddGwylDewi?

(20230301)

Anoleithog pyllog apêl yw drwg
Draig anela'n isel;
Ein hendiad a'n gwrid yn gél
Â Dewi'n od o dawel.

(Dim baneri ar y stryd fawr, ond baneri newudd gartref.)

Gogleddwawl

(20230228)

Hwn yw Duw a dafia dis yn nirgel
Nos dawel er dewis
Eiliad am brofiad uwch bris
O'r haul, gwên borealis.

(Yng Nghaerhirfryn dros nos, a gweld rhyw wawl i'r gogledd, ond anodd gwybod os taw'r gogleddwawl oedd. Llif o electronau a photonau o'r haul yn cael eu denu tuagat pegwn magnetiaidd gogledd y ddauar, yn taro i mewn i foleculau ocsigen a nitrogen, yn datgysylltu'r atomau a'u cynhyrfu a'u heioneiddio. Achosir y llwliau nodweddiadol gan atomau ocsigen (gwyrrdd ac orengoch) a nitrogen (glas a choch) yn adenill edweddiol gan gyfyrau cynhyrfedig yn ymlacio.)

GweithredyddionAnghymudol

(20230226)

$$\Delta x \Delta p \geq \frac{\hbar}{2}$$

Fwmdaf o bendrapphendod Heisenberg
A swyn Bohr am wirfod;
O ddysg anhafaledd ôd
Wynebwf sail anwybydd.

(Yr egwyddor anicrwydd, daw o'r ffaith nad yw gweithredyddion - fel lleoliad a momentwm, neu egni ac amser - yn cymudo â'i gilydd.)

Cysylltu

(20230225)

Ti'di hwy! hel tudalen - arhoswn
I'r broses gael gaffen;
Ond poen, poen rhyw VPN
I ddiawl dilynau'r ddolen!

(Helpu T. Erw Goch i gysylltu â TEAMS. Roedd trafferth gyda'r VPN.)

CathSchrödinger

(20230225)



Y sawl a wna arsylwad - daw i weld
Penodoldeb cread;
Fel lôn yw hwn, cyflawnhad
Chwala ôl uwch-leoliad.

(Canlyniad damcaniaeth cwantwm yw bod pawb a phopeth yn bodoli mewn uwch-leoliad (*superposition*) ansicr tan i rhyw fodd ymwybodol wneud arsylwad. Golyga hyn y gallwn fod yn fyw ac yn farw ar yr un pryd. Cyn ddiotd yw deall dyn.)

LlynYFan

(20230221)



Lioni o fod ger Llyn y Fan - gweld dim
Â gwawl tarth ym mhobman;
Ond arlwy haul daw i'r lan
I herio'r c'myliau arian.

(Cerdded i Lyn y Fan gyda T, haul bendigedig uwch y cymylau, a gweld "enfys wen" am y tro cyntaf.)

YTipiau

(20230220)

Ar droed i'r postyn ochor draw ar fin
Yr afonog alawr;
Ar y cyd o'r byd drwy'r baw
I dystio'r pethau distaw.

(Cerdded gyda T ar hyd 'y tipiau' - sef llwybr coedlog ond lleidiog ger y Tawe erbyn hyn - at y "postyn ochr hyn a'r postyn ochr draw", wedi gwneud yr un wac ganoedd o weithiau gyda dad a'r ci oesoedd math yn ôl!)

Cymharu

(20230219)

$$u_i^{n+1} = u_i^n - \Delta t [a^+ u_x^- + a^- u_x^+]$$

Caf olau teg hafaliad a'i wirredd
Differol er dwad
I'r afael â chyfrifiad;
Nefoedd yw hwn o fodddhad!

(Defnyddio canlyniadau cyflwr sefydlog i wirio cyfrifiad rhifiadol ansefydlog, a phopeth yn gweithio yn y pen draw!)

Llundain

(20230217)




Testament i dalent dyn - tafodau
 Âtu geiriau'n creu gworun
 Dinas wiw'n llawn lliw a llun
 A duwdeb dyfodadun.

Cronbil nwyd y llwyd eu llun - trachwant
 A gwariant a gworun
 Pair ysiad anghredadun,
 Llwyfan sarug diffyg dyn.


(Mynd eto i'r Bigsmôc, a joio mwy nag arfer, mae'n debyg am fy mod i'n cymryd pethau ychydig yn fwy ara' deg! Ond mae ychydig ddiwrnodau yno'n ddigon!)

PenblwyddRhif2
 (20230213)



Daw awr am ddathliad eirian er rhanu
 Anrhegion y bychan;
 Blwyddyn mwy, dwy fydd Dyfan
 Dirioned, gwyned ei gân!


Gorthrwm
 (20230212)



Tro hiraeth ger Tryweryn - aer boddin
 Creu beddau drwy'r dyffryn;
 Ol cawlach Capel Celyn:
 Dwi!r lle a diawlio'r llyn.

(Mynd heibio'r gofeb 'ddoe â themladau cymysg. Tirfun bendigedig, ond creithiau a sgil-effeithiau Tryweryn a Thrawsfynydd yn amlwg i bawb.)

YrArenigFawr
 (29230212)



Yn rhugl i Foel yr Eglwys a rhiniau'r
 Arenig hyfrydlwys;
 Cwpla ar ben copa mae'n cwys
 Er oedi ym mharadwys.

(Cerdedd 'da R. a T. i llyn Arenig Fawr o lan Llyn Celyn, ac wedyn lan i Foel Yr Eglwys, â golygfeydd hyfryd o Drawsffnydd, Porthmadog a Phwllheli.)

Dadfeilio
 (20230210)

Gwae yw rhodd ein "gwareiddiad", ac afraid
 Wallgofrwydd "datblygiad"
 Ar heol i ddirywiad
 Â surni am gloffi'n gwlad.

(I. yn gwyllo *QuestionTime* neithiwr. Mae safon y drafodaeth gyffredinol ym Mhrydain mor isel, fel petai bod dirywiad cymdeithas i'w weld yn digwydd o flaen ein llygaid.)

AD
 (20230208)

$$\frac{\partial c}{\partial t} + \nabla \cdot (-D\nabla c + vc) = R$$

Modfeddau, eiliadau tyledol - rhediad
 O ffrydiau llorfudol;
 Creu cyfrif o lif di-lol
 Yw medr y cyfaint meidrol.

(Datrys hafaliad llorffudiant - tylediad, *sed advection-diffusion*, AD.)

AmrywiantAsymptotig
 (20230207)

$$\hat{\theta}_N \xrightarrow{d} \mathcal{N}(\theta_0, \Sigma_N(\theta_0)^{-1})$$

Ysgogiad dysg mathematig - arfer
 Â therfan ganolig
 Rhydd tebygoliaethol frig
 At ateb asymptotig!

(Y ffordd i feintio'i ansicrwydd o amcangyfrifon tebygoliaeth fwyaf, *sef maximum likelihood*, pan fod y sampl yn fawr!)

CaeaDyBenAchyfrifal
 (20230206)

$$\frac{\partial u(\mathbf{r}, t)}{\partial t} = -\frac{\hbar^2}{2m} \nabla^2 u(\mathbf{r}, t) + V(\mathbf{r})u(\mathbf{r}, t)$$

Drysi ar faths di-rheswm yn cynal
 Damcaniaeth sy'n rhigwrm?
 Endid haprwydd, lliid y llwm:
 Cei hynt dirgelwch cwantwm.

(Darllen eto am ddamcaniaeth cwantwm, a bod neb wir yn deall beth mae'n meddwl.)

WyiWyiWyi?
 (20230204)

Un gwefr bu dechrau Chwefror - dal alaw
Delleila yn agor
 At ias y gêm, a chwant sgôr:
 Ni chlyw'r rhegi rhagor!

Ar hyd nos ysbrydion isel - gwerthoedd
 Gwarthus sgandal dawl;
 Gwaeddwn dros faeddu Gwyddel
 I leddfdu cryd byd y bêl!


(Gwahardd canu *Delleila* a sgandal bwlio ayyb.)

MasalaZone
 (20230202)

Os mynd, da mynd am Indi-ans a hwy!
 Masala amdan!
 Dihafal blât o *thali*
 Yn lawnder i d'wlyder di!

(Wedi blino'n lân, ag awydd noson dawel, ond cytuno mynd 'da rhai o ffrindiau gwaith am gyri yn y *Masala Zone* yn *Covent Garden*, a joio! Yng Nghwm Tawe mae gwlyder hefyd yn meddwl "chwant bwyd".)

Avanti
 (20230130)



Hud olwyniad sy'n atsin - ar wincad
 O Runcorn yn gelwain;
 Clud yw'r cwsy hyd cledrau cain:
 Handi serch mynd i Lundain!

(Mynd i Lundain ar y tren.)

Garndolbenmain
 (20230129)

Nesáu 'rwyf at Nasareth - awr antur
 I hwntw mewn penbleth!
 Fel y dur, mor bur siwd beth
 Â chanllaw i Fachynlleth!

(Mynd o Fenllech i gyngerdd côr ym Machynlleth. Mynd ar ffordd ddiethr o Gaernarfon i Borthmadog a Dolgellau. Diolch byth am satnafi!)

YDraffordd
 (20230127)

Lledrith wrth droelli adre - chwildroad
 Hafaliad a folech
 Yn faddion, cyfarfydddech
 Theorem chwaeth yr M6.

(Dod nol o Gaerhirfryn.)

IaithYcesair
 (20230122)

Hin hwmnos a iaith y siwrne'n gân llosg
 O genillysg Llangollen;
 'Mhen ryw awr, tinc daw o'r De'n
 Nheges oer hen gyseren.

(Iaith y tywydd yn newid wrth fynd lawr i Gwm Tawe.)

Llwydrhew
 (20230121)

Noson galed fu, cyn ddued - a 'nawr
 Cân y wawr cyn oered;
 Ym mha'u golau mae gweled
 Siew llain o lwydrew ar led.

(Rhewi'n galed neithiwr, a'r anwyd yn diflanu o'r diwedd; cyfle cyntaf i redeg ers pythefnos!)

Eiral
 (20230117)

Ysblander, pleser y plu - fel seintwar,
 Cwymp cynar cyn cwnu;
 Cwyn ydyw byci 'di ganu,
 Urdas dros y diflas, du.

Daw duwdd a dyddoddi'n y pluo
 Gan nwyfo cynefin;
 Daw'r eira wedi'r oeri'n
 Wyrth trawsffurfiad, profiad prin.

(Eira dros nos, a mwy heddi.)

ApêlAmYPolynl
 (20230116)



Hwn bu'r bwrn un p'nawn Sadwrn sy'n - hawliodd
 Gwialen ei nefyn;
 Hynod gam mewn tywod gwyn:
 Pa hawl oedd planu polyn?

(Danfon llun o ffrynt Aberystwyth at R. a hwnw'n achwyn bod 'na ryw bolyn fflag newydd yn ei ganol!)

Tŵsis
 (20230115)

Aflafar oddefgarwch - dyma siom
 Rhaid Sulio mewn salwch
 Tru i drechu poerog drwch
 Drwy'r nos, pos atal peswch!

(Anwyd yn dall!)

PwyAWyr?
 (20230114)

Dirifedi'r rhiffadol - mapio chwaeth
 CMIP6 ar fantol
 Can ddilyn rhaid 'ffeiriaid ffol,
 Suddwn hyd lwybr hinsoddol.

(Yn edrych ar effaith positif newid hinsawdd ar garwedd gwynoedd a stormydd morol y dyfodol agos. O ran codi rymheredd y byd, mae'r stori'n glir. Ond o ran priodweddau stormydd, mae'r amrywiant a welir rhwng modelau gwahanol, a'r amrywiant hap o fewn unrhyw fodel penodol, gymaint nad oes modd rhagweld dim byd bron ag unrhyw sicrwydd. CMIP6 ("si-mip-chwech") yw'r acronym ar gyfer y gehedlaeth newyddaf o fodelau atmosfferig, a morol-atmospheric a mwy weithiau sy'n cyhyrchu toreth o ddata! Defnyddir y term "llwybr" i ddynodi datblygiad y system ddaearol o dan amodau "scenario" â gorfodi hinsawdd penodol.)

Llinach
 (20230113)



Hynod argoel o'r dirgel - hen loffion
 O gyrrion y gorwel;
 Hanes hywyr Llansawel
 Cofnod parod eu hapêl!

(Dod o hyd i dystiolaeth, o ddilyn ymchwil D&E, taw fy hen hen dadcu (Thomas J 1825-1881), wedi ei gladdu ar y Graig Arw / Pantteg) symudodd i Gwm Tawe o Lansawel, Sir Gâr, a sicrwydd taw hen x3 dadcu oedd Joseph J (1786-1854), cigydd yn Llansawel ar hyd ei oes. Awgryma hyn taw Daniel J (?-1794), y mae ei fedd hefyd o hyd i'w gweld yn Llansawel, oedd fy hen x4 dadcu, efallai.)

Diwlŷcs
 (20230108)



Melyn eiff i'r dim yno - a diben
 Mor llawen yw lliwio'r
 Oriau tēr o'r llawr i'r to;
 Dros y bont, dyrys beintio!

(Peintio ystafell ym Menllech, a malu cwpwrdd â drysau mawr gwyrdd ych a fl! A dal anwyd wrth D.)

YDoethion
 (20230107)

Aur y nef mewn seren noeth, nos â moes
 Thus a myr gwŷr hygoeth;
 Cofw'n neges eu cyfoeth
 Wrth dderbyn y tri dyn doeth.

(Y gwŷr doeth yn ymweld ar y 6ed, yn ôl traddodiad.)

Wedi'rWyl
 (20230106)

Cilia awch cân y clychau - dyddiau prid
 Oedi dyheadau;
 Ol gwên a hwl yn gwanhau
 O lwyd'r goleuadau.

(Atgofion y Nadoig yn diflanu'n ara' deg.)

Dim?
 (20230101)

Dameg, sen, daw megis sim-iwleiddiad
 A lwyddodd i godi
 Mater, ond tralod nodi
 Mai'r twll yn llun dyn yw "dim".

(Darllen erthygl ar sut mae ffisegydd yn dehongli "dim". Mae'r rhan fwyaf o ddehongliadau yn dibynu ar "fodolaeth" trefn fathemategol damcaniaeth cwantwm neu debyg. Ond y dim "pur" yw "dim Plato", lle nad oes hyd yn oed trefn fathemategol yn bodoli. Mae'r dim hwn tuhwnt i amgyffred y gwyddonydd. Sut daeth y drefn fathemategol "i fod" yn y lle cyntaf? A sut yn y byd y mae'n bosib bod dyn yn gallu dehongli'r byd o gwbl?)